UMPA
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
25ain Ebrill 2024
Wyneb yn wyneb a dros Teams

Yn bresennol

Elain Gwynedd (EG)	Swyddog Diwylliant Cymreig, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr UMPA
Helen Cooper (HC)	- Swyddog Llesiant a Swyddog-Ymddiriedolwr UMPA
Tiff McWilliams (TMW)	- Swyddog Cyfleoedd i Fyfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMPA
Anna Simpkins (AS)	- Swyddog Materion Academaidd UMPA
Ryan Beasley (RB)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Jon Allsopp (JA)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Dan Fow (DF)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
Tom Molyneux (TMO)	- Ymddiriedolwr Myfyriwr UMPA
Andra Jones (AJ)	- Ymddiriedolwr Myfyriwr UMPA

Yn Bresennol

Trish McGrath (TMcG)	- Prif Weithredwraig UMPA
Annmarie Evans (AE)	- Pennaeth Pobl a Llesiant UMPA (cofnodwr)

GWEINYDDU'R CYFARFOD

EG a ddechreuodd y cyfarfod gan groesawu Dan Fow, a'i benodwyd yn Ymddiriedolwr Allanol.

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb
   Cafwyd ymddiheuriadau gan Debra Croft, Alan Roberts a Bayanda Vundamina.

2. **Datgan Buddiannau** Ni ddatganwyd buddiannau.

3. Cofnodion y Cyfarfod cynt
   Cymeradwywyd Cofnodion y Cyfarfod cynt a gynhaliwyd 29ain Chwefror 2024.
   Cymeradwywyd

4. **Materion sy'n Codi**
   Mae'r Tîm Cyfleoedd yn adolygu hyfforddiant ar gyfer aelodau pwyllgor a bydd modd monitro ffigurau ar ôl ei gwblhau a pharatoi at y flwyddyn nesaf.
   Cofnodwyd

STRATEGAETH

5. **Cyllid: Cyfrifon Rheoli**
   Esboniodd Trish y Cyfrifon Rheoli hyd at fis Mawrth 2024. Yn gyffredinol, dengys fod diffyg o £17k.
   Cofnodwyd

6. Cynnydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Rhoddodd TM ddiweddariad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i'r Bwrdd. Ni chafwyd cwestiynau.

Cofnodwyd

7. Adroddiad y Brif Weithredwraig

Triniodd TM feysydd yn ei hadroddiad ar staffio, cyllid, ac adnoddau a oedd yn cynnwys sefyllfa ariannol y Brifysgol, cyfathrebu ac ymgysylltu, dathlu, cyfleoedd, cynghori a llesiant, a llais y myfyrwyr a oedd hefyd yn cynnwys canlyniadau'r etholiad.

Cofnodwyd

8. Adroddiad y Swyddogion

Swyddog Cyfleoedd - Wrthi gyda Varsity, adfer a chyflawni ymgyrch dim esgusodion i hyfforddiant cymunedol, Grymuso Aber, Tiff yn Treialu yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, gwaith cod ymddygiad gyda phwyllgorau, digwyddiadau Codi a Rhoddi y Swyddogion; Charioke a'r holl waith ar Dathlu.

Swyddog Llesiant - Rhwydweithio ar gyfer Menywod mewn Ymchwil, Grymuso Aber, Adennill y Nos, Cydweithio ar Gynhadledd Cymru UCM, cynllunio wythnos leddfu straen, trefnu pecynnau profion beichiogrwydd, atal hunan-laddiad Papyrus a Strategaeth Iechyd a Llesiant.

Swyddog Academaidd - Cynhadledd Genedlaethol UCM - mae diwygio'r UCM yn mynd rhagddi - yn lle cael llywydd dros y Deyrnas Unedig caiff ei rannu ar draws y glwedydd. Polisi argyfwng costau byw, solidariaeth â phobl Palestina a rhyddid barn ar y campws. Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth, gwefan niwroamrywiaeth newydd a ddylai fod dan arweiniad y myfyrwyr a llwyfan i fyfyrwyr drafod eu profiadau. Y Senedd - mabwysiadu polisi 'iawn i sefyll' - os nad ydych chi'n gwneud arholiad, prosiect neu draethawd hir - aiff i'r cyfle ailsefyll nesaf ar gyfer marc heb gyfyngiad - nid yw'r consensws yn fodlon ei dderbyn eto - bydd diweddariad fis Mehefin.

Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA - UMCA enillodd yr Eisteddfod Rhyngol am y tro cyntaf ers 2015!Cyf Cyff - Pasiwyd polisi i newid yr enw i Undeb Aberystwyth, grant o £1k ar gyfer UMCA 50 a chododd yr Wythnos Codi a Rhoddi £3,266.59 hyd yma.

Cofnodwyd

9. Amcanion y Brif Weithredwraig

Darparwyd adroddiad ar gynnydd yn erbyn amacanion y Brif Weithredwaig.

Cofnodwyd

10. Cyllid

Rhoddodd TM adroddiad a chyllid fanwl ar gyfer 2024/2025 gan roi amryw senario i'r Bwrdd ei ystyried ar gais y Brifysgol. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i TM barhau gyda'r rhwydweithio a'r gefnogaeth y mae'n ei chael yn yr argyfwng sydd ohoni, sy'n hollbwysig yn ôl nhw. Dywedodd yr Ymddiriedolwyr ei bod hi'n bwysig dangos i'r Brifysgol faint o effaith y byddai'n ei chael os bydd llai o arian a phwysleisio faint o werth ariannol rydyn ni'n ei ddarparu. Ystyried pwysleisio'r diffyg ennill incwm posibl a allai gael ei gynhyrchu oherwydd mai'r Brifysgol sydd biau'r maes masnachol.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r caeau solar ac a wnaiff hyn olygu llai o gostau defnydd ac a ydy'r cynilon hyn wedi cael eu dyrannu'n iawn i Undeb y Myfyrwyr. Cofnodwyd a chymeradwywyd i TM fynd â chynilon i'r Brifysgol.

11. Cofrestr Risgiau

Trafododd TM yn fras y gofrestr risgiau ddiwygiedig. TM i chwilio am unrhyw gamau yn erbyn risgiau a allai fod wedi cynyddu.
Cam Gweithredu - TM

12. Cyf Cyff

Cafodd cofnodion y Cyf Cyff eu cymeradwyo gan y Bwrdd.
Cymeradwywyd

13. Diweddariad i'r cyfansoddiad

Gofynnodd TM i'r Bwrdd gymeradwyo Undeb Aber gael ei ddefnyddio yn lle AUSU neu UMAber yn y cyfansoddiad a'r is-ddeddfau.
Cymeradwywyd

14. Unrhyw Faterion Eraill

Soniodd DF am yr angen i bwyleisio wrth y Brifysgol ein bod yn Undeb Myfyrwyr sydd wedi ennill sawl gwobr, a'n bod ni yn rhagori ar lawer faes o'n gwaith ac o ystyried maint yr Undeb, mae'r Brifysgol yn cael budd mawr ohonom. A llongyfarch pawb.

15. Dyddiad y Cyfarfod

Nesaf 13eg Mehefin
2024